



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 11

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2026**

Gwnaed

20 Ionawr 2026

Yn dod i rym

12 Chwefror 2026

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 11

**The Education (Student Finance) (Amounts) (Miscellaneous
Amendments) (Wales) Regulations 2026**

Made

20 January 2026

Coming into force

12 February 2026



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 11

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

- (a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),
- (b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"),
- (c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"),
- (d) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol"), ac
- (e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso.

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r uchafswm y gall sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym ("sefydliadau rheoleiddiedig") ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â chysiau penodol.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu pob uchafswm rhagnodedig o'r flwyddyn academiaidd 2026/27 ymlaen.

Mae Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018, ac ar neu ar ôl 1 Awst 2018, yn y drefn honno.

Mae'r Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd ddoethurol ôl-raddedig dynodedig sy'n dechrau

ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Mae Rheoliadau 2019 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Mae Rhannau 3, 4, 5 a 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, yn y drefn honno, i ddiweddarau symiau amrywiol a bennir ym mhob un o'r Rheoliadau hynny.

Yn benodol, yn Rhan 3, mae rheoliadau 9, 10, 11 ac 21 yn diwygio Rheoliadau 2017, ac yn Rhan 4, mae rheoliad 31 yn diwygio Rheoliadau 2018, i gynyddu uchafswm y cymorth at ffioedd dysgu sydd ar gael o'r flwyddyn academaidd 2026/27 ymlaen i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chysiau mewn—

- (a) sefydliadau rheoleiddiedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn yr uchafsymiau rhagnodedig o dan Rheoliadau 2015 o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan Ran 2,
- (b) sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a reoleiddir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y symiau y gall sefydliadau a darparwyr o'r fath eu codi drwy ffioedd dysgu, ac
- (c) sefydliadau preifat yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 11

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed

20 Ionawr 2026

Yn dod i rym

12 Chwefror 2026

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a), (2)(b) ac (c), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998⁽¹⁾, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy⁽²⁾, a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(3) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015⁽³⁾.

RHAN 1

Enwi, dod i rym a chymhwyso

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Chwefror 2026.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fyfyrwr mewn perthynas â blwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

- (1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan adran 146(2)(a) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) a (2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44(1) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- (3) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

- (a) 9 i 29 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017);
- (b) 31 i 46 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018).

(2) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fyfyrwr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

- (a) 48 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018);
- (b) 50 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019).

RHAN 2

Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

Cyflwyniad

3. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015⁽⁴⁾ wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Diwygio rheoliad 3

4. Yn rheoliad 3 (yr uchafswm rhagnodedig), yn Nhabl 1—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£9,790"
--	---------

Diwygio rheoliad 4

5. Yn rheoliad 4 (yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer blynyddoedd academaidd terfynol cyrsiau a blynyddoedd academaidd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon), ym mharagraff (2), yn Nhabl 2—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£4,895"
--	---------

Diwygio rheoliad 5

6. Yn rheoliad 5 (yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer cyrsiau rhyngosod), ym mharagraff (2), yn Nhabl 3—

(4) O.S. 2015/1496 (Cy. 168), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/144 (Cy. 31) ac O.S. 2025/190 (Cy. 41).

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Awst 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£1,955”
--	---------

Diwygio rheoliad 6

7. Yn rheoliad 6 (yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith dramor), ym mharagraff (2), yn Nhabl 4—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Awst 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£1,465”
--	---------

RHAN 3

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017

Cyflwyniad

8. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017(5) wedi eu diwygio yn unol â’r Rhan hon.

Diwygio rheoliad 20

9. Yn rheoliad 20 (benthyciad ychwanegol at ffioedd mewn perthynas â chysiau sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012)—

- (a) ym mharagraff (3)(a), yn lle “£535” rhodder “£790”;
- (b) ym mharagraff (4)(a), yn lle “£265” rhodder “£395”;
- (c) ym mharagraff (5)(a), yn lle “£105” rhodder “£155”;
- (d) ym mharagraff (6)(a), yn lle “£80” rhodder “£115”.

Diwygio rheoliad 21

10. Yn rheoliad 21 (benthyciad newydd at ffioedd sefydliad preifat)—

- (a) ym mharagraff (3)(a), yn lle “£6,355” rhodder “£6,525”;
- (b) ym mharagraff (4)(a), yn lle “£3,175” rhodder “£3,260”;
- (c) ym mharagraff (5)(a), yn lle “£1,270” rhodder “£1,305”;
- (d) ym mharagraff (6)(a), yn lle “£950” rhodder “£975”.

(5) O.S. 2017/47 (Cy. 21); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/191 (Cy. 42), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/153 (Cy. 27), O.S. 2021/73 (Cy. 19), O.S. 2022/79 (Cy. 28), O.S. 2023/87 (Cy. 17), O.S. 2023/1349 (Cy. 243), O.S. 2024/86 (Cy. 24), O.S. 2025/190 (Cy. 41) ac O.S. 2025/193 (Cy. 42).

Diwygio rheoliad 22

11. Yn rheoliad 22 (benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam), ym mharagraff (5)(a), yn lle “£285” rhodder “£540”.

Diwygio rheoliad 24

12. Yn rheoliad 24 (grantiau at gostau byw myfyrwyr anabl), ym mharagraff (3)(a), yn lle “£34,000” rhodder “£34,671”.

Diwygio rheoliad 26

13. Yn rheoliad 26 (grantiau ar gyfer dibynyddion - grant ar gyfer dibynyddion mewn oed), ym mharagraff (3), ym mhob un o is-baragraffau (a) a (b), yn lle “£3,407” rhodder “£3,474”.

Diwygio rheoliad 27

14. Yn rheoliad 27 (grantiau ar gyfer dibynyddion – grant gofal plant)—

(a) ym mharagraff (7)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “£192” rhodder “£196”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£329” rhodder “£335”;

(b) ym mharagraff (9)(a), yn lle “£147” rhodder “£150”.

Diwygio rheoliad 28

15. Yn rheoliad 28 (grantiau ar gyfer dibynyddion – lwfans dysgu ar gyfer rhieni), ym mharagraff (2), yn lle “£1,945” rhodder “£1,983”.

Diwygio rheoliad 29

16. Yn rheoliad 29 (grantiau ar gyfer dibynyddion – eu cyfrifo)—

(a) ym mharagraff (2), yn y diffiniad o B—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£1,211” rhodder “£1,235”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£3,628” rhodder “£3,700”;

(iii) ym mharagraff (c), yn lle “£4,839” rhodder “£4,934”;

(iv) ym mharagraff (d), yn lle “£6,056” rhodder “£6,175”;

(b) ym mharagraff (10), yn lle “£50”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “£54”.

Diwygio rheoliad 43

17. Yn rheoliad 43 (benthyciadau at gostau byw: uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyrwyr carfan 2010, yn fyfyrwyr carfan 2012 neu'n fyfyrwyr mynediad graddedig carlam 2012)—

(a) ym mharagraff (2), yn y diffiniad o X—

(i) ym mharagraff (i), yn lle “£6,438” rhodder “£6,565”;

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle “£11,650” rhodder “£11,880”;

(iii) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£9,917” rhodder “£10,113”;

(iv) ym mharagraff (v), yn lle “£8,317” rhodder “£8,481”;

(b) ym mharagraff (3), yn y diffiniad o X—

- (i) ym mharagraff (i), yn lle “£5,830” rhodder “£5,945”;
- (ii) ym mharagraff (ii), yn lle “£10,609” rhodder “£10,818”;
- (iii) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£8,625” rhodder “£8,795”;
- (iv) ym mharagraff (v), yn lle “£7,705” rhodder “£7,857”.

Diwygio rheoliad 45

18. Yn rheoliad 45 (benthyciadau at gostau byw: myfyrwyr sydd â hawlogaeth ostyngol)—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn is-baragraff (b)—
 - (aa) ym mharagraff (i), yn lle “£3,057” rhodder “£3,117”;
 - (bb) ym mharagraff (ii), yn lle “£5,729” rhodder “£5,842”;
 - (cc) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£4,875” rhodder “£4,971”;
 - (dd) ym mharagraff (v), yn lle “£4,076” rhodder “£4,156”;
 - (ii) yn is-baragraff (c), yn y diffiniad o X—
 - (aa) ym mharagraff (i), yn lle “£4,829” rhodder “£4,924”;
 - (bb) ym mharagraff (ii), yn lle “£8,738” rhodder “£8,910”;
 - (cc) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£7,438” rhodder “£7,585”;
 - (dd) ym mharagraff (v), yn lle “£6,238” rhodder “£6,361”;
- (b) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn is-baragraff (b)—
 - (aa) ym mharagraff (i), yn lle “£2,323” rhodder “£2,369”;
 - (bb) ym mharagraff (ii), yn lle “£4,381” rhodder “£4,467”;
 - (cc) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£3,564” rhodder “£3,634”;
 - (dd) ym mharagraff (v), yn lle “£3,176” rhodder “£3,239”;
 - (ii) yn is-baragraff (c), yn y diffiniad o X—
 - (aa) ym mharagraff (i), yn lle “£4,373” rhodder “£4,459”;
 - (bb) ym mharagraff (ii), yn lle “£7,957” rhodder “£8,114”;
 - (cc) ym mhob un o baragraffau (iii) a (iv), yn lle “£6,469” rhodder “£6,596”;
 - (dd) ym mharagraff (v), yn lle “£5,779” rhodder “£5,893”.

Diwygio rheoliad 50

19. Yn rheoliad 50 (benthyciadau at gostau byw: codiadau yn yr uchafswm), ym mharagraff (1)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “£96” rhodder “£98”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “£184” rhodder “£188”;
- (c) ym mhob un o is-baragraffau (c) a (d), yn lle “£201” rhodder “£205”;
- (d) yn is-baragraff (e), yn lle “£144” rhodder “£147”.

Diwygio rheoliad 56

20. Yn rheoliad 56 (asesiad ariannol: cymhwyso'r cyfraniad)—

(a) ym mharagraff (3)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£4,829” rhodder “£4,924”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£8,738” rhodder “£8,910”;
- (iii) ym mhob un o is-baragraffau (c) a (d), yn lle “£7,438” rhodder “£7,585”;
- (iv) yn is-baragraff (e), yn lle “£6,238” rhodder “£6,361”;

(b) ym mharagraff (4)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£4,373” rhodder “£4,459”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£7,957” rhodder “£8,114”;
- (iii) ym mhob un o is-baragraffau (c) a (d), yn lle “£6,469” rhodder “£6,596”;
- (iv) yn is-baragraff (e), yn lle “£5,779” rhodder “£5,893”.

Diwygio rheoliad 86

21. Yn rheoliad 86 (benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser)—

- (a) ym mharagraff (3)(a), yn lle “£2,625” rhodder “£2,875”;
- (b) ym mharagraff (4)(a), yn lle “£7,145” rhodder “£7,335”;
- (c) ym mharagraff (5)(a), yn lle “£4,765” rhodder “£4,895”.

Diwygio rheoliad 88

22. Yn rheoliad 88 (grantiau at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl), ym mharagraff (3)(a), yn lle “£34,000” rhodder “£34,671”.

Diwygio rheoliad 91

23. Yn rheoliad 91 (grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed), ym mharagraff (3), ym mhob un o is-baragraffau (a) a (b), yn lle “£3,407” rhodder “£3,474”.

Diwygio rheoliad 92

24. Yn rheoliad 92 (grant rhan-amser ar gyfer gofal plant)—

(a) ym mharagraff (6)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£192” rhodder “£196”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£329” rhodder “£335”;

(b) ym mharagraff (8)(a), yn lle “£147” rhodder “£150”.

Diwygio rheoliad 93

25. Yn rheoliad 93 (lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni), ym mharagraff (2), yn lle “£1,945” rhodder “£1,983”.

Diwygio rheoliad 94

26. Yn rheoliad 94 (grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – y cyfrifiadau cychwynnol)—

(a) ym mharagraff (2), yn y diffiniad o B—

- (i) ym mharagraff (a), yn lle “£1,211” rhodder “£1,235”;
- (ii) ym mharagraff (b), yn lle “£3,628” rhodder “£3,700”;
- (iii) ym mharagraff (c), yn lle “£4,839” rhodder “£4,934”;
- (iv) ym mharagraff (d), yn lle “£6,056” rhodder “£6,175”;
- (b) ym mharagraff (10), yn lle “£50”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£54”.

Diwygio rheoliad 117

27. Yn rheoliad 117 (cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd ag anableddau: swm y grant), ym mharagraff (2)(a), yn lle “£34,000” rhodder “£34,671”.

Diwygio Atodlen 5

28. Yn Atodlen 5 (asesiad ariannol), ym mharagraff 3 (incwm yr aelwyd), yn is-baragraff (3), yn lle “£1,150” rhodder “£1,175”.

Diwygio Atodlen 6

29. Yn Atodlen 6 (asesiad ariannol — grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion), ym mharagraff 2 (incwm yr aelwyd), yn is-baragraff (3), yn lle “£1,150” rhodder “£1,175”.

RHAN 4

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

Cyflwyniad

30. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018⁽⁶⁾ wedi eu diwygio yn unol â’r Rhan hon.

Diwygio rheoliad 40

31. Yn rheoliad 40 (swm benthyciad at ffioedd dysgu), ym mharagraff (3), yn Nhabl 2—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	1	Darparwr arferol	Cymru	£9,790: cwrs llawnamser £2,875: cwrs rhan-amser
			Mannau eraill yn y DU	£9,790: cwrs llawnamser £7,335: cwrs rhan-amser

(6) O.S. 2018/191 (Cy. 42); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/813 (Cy. 164), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/153 (Cy. 27), O.S. 2021/73 (Cy. 19), O.S. 2022/79 (Cy. 28), O.S. 2023/87 (Cy. 17), O.S. 2023/1349 (Cy. 243), O.S. 2024/86 (Cy. 24), O.S. 2024/144 (Cy. 31), O.S. 2025/190 (Cy. 41) ac O.S. 2025/193 (Cy. 42).

		Sefydliad preifat	Cymru	£6,525: cwrs llawnamser £2,875: cwrs rhan-amser
			Mannau eraill yn y DU	£6,525: cwrs llawnamser £4,895: cwrs rhan-amser
	2	Darparwr arferol	Cymru a mannau eraill yn y DU	£4,895
		Sefydliad preifat	Cymru a mannau eraill yn y DU	£3,260
	3	Darparwr arferol	Cymru a Lloegr	£1,955
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£4,895
		Sefydliad preifat	Cymru a Lloegr	£1,305
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£3,260
	4	Darparwr arferol	Cymru a Lloegr	£1,465
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£4,895
		Sefydliad preifat	Cymru a Lloegr	£975
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£3,260
	5	Darparwr arferol	Cymru a mannau eraill yn y DU	£6,325
	6	Darparwr arferol	Cymru, Lloegr a'r Alban	£1,465"

Diwygio rheoliad 45

32. Yn rheoliad 45 (swm y grant sylfaenol), yn Nhabl 3—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£1,020 ar gyfer cwrs llawnamser £1,020 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio ar gyfer cwrs rhan-amser"
--	---

Diwygio rheoliad 46

33. Yn rheoliad 46 (swm y grant cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser)—

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “£6.937” rhodder “£6.805”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£4.475” rhodder “£4.387”;

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle “£5.750” rhodder “£5.639”;

(b) ym mharagraff (4), yn Nhabl 4—

(i) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	Byw gartref	£6,000
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£9,305
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£7,240”

Diwygio rheoliad 47

34. Yn rheoliad 47 (swm y grant cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser)—

(a) ym mharagraff (3), yng Ngham 1, yn lle “£6.84” rhodder “£6.71”;

(b) ym mharagraff (4), yn Nhabl 5—

(i) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£5,100”
--	---------

Diwygio rheoliad 55

35. Yn rheoliad 55 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser), ym mharagraff (4), yn Nhabl 7—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	Categori 1	Byw gartref	£9,665
		Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£14,700
		Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£11,570
	Categori 2	Byw gartref	£4,830
		Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£7,350
		Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£5,785”

Diwygio rheoliad 56

36. Yn rheoliad 56 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig)—

- (a) ym mharagraff (2), yng Ngham 3, yn Nhabl 8—
- (i) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;
- (ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	Byw gartref	£11,850
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£17,675
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£14,045”

- (b) ym mharagraff (3), yn Nhabl 8A—
- (i) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;
- (ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	Byw gartref	£4,830
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£7,350
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£5,785”

Diwygio rheoliad 57

37. Yn rheoliad 57 (benthyciad cynhaliaeth wedi ei gynyddu ar gyfer myfyrwyr llawnamser yn ystod blynyddoedd estynedig), ym mharagraff (7), yn Nhabl 9—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	Byw gartref	£98
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£188
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£147”

Diwygio rheoliad 58

38. Yn rheoliad 58 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser), ym mharagraff (2), yn Nhabl 10—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£8,265 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio"
--	---

Diwygio rheoliad 58A

39. Yn rheoliad 58A (swm y benthygiad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig), ym mharagraff (2), yng Ngham 2, yn Nhabl 10A—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£9,285 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio"
--	---

Diwygio rheoliad 63

40. Yn rheoliad 63 (swm y grant myfyriwr anabl), ym mharagraff (2), yn Achos 1, yn lle "£34,000" rhodder "£34,671".

Diwygio rheoliad 72

41. Yn rheoliad 72 (uchafswm y grant oedolion dibynnol), ym mharagraff (2), yn Nhabl 11—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£3,474"
--	---------

Diwygio rheoliad 74

42. Yn rheoliad 74 (uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni), yn Nhabl 12—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026	£1,983"
--	---------

Diwygio rheoliad 76

43. Yn rheoliad 76 (uchafswm y grant gofal plant)—

- (a) ym mharagraff (2), yn Nhabl 13—
 - (i) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";
 - (ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026"	Un plentyn dibynnol	£196
	Mwy nag un plentyn dibynnol	£335"

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£147" rhodder "£150".

Diwygio rheoliad 77

44. Yn rheoliad 77 (grantiau ar gyfer dibynyddion: cyfrifo'r swm sy'n daladwy)—

(a) ym mharagraff (1), yng Ngham 2—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£6,434" rhodder "£6,561";

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "£8,852" rhodder "£9,026";

(iii) ym mharagraff (c), yn lle "£10,062" rhodder "£10,261";

(iv) ym mharagraff (d), yn lle "£11,279" rhodder "£11,502";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£50", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£54".

Diwygio Atodlen 3

45. Yn Atodlen 3 (cyfrifo incwm), ym mharagraff 3 (cyfrifo incwm yr aelwyd), yn is-baragraff (4), yn Nhabl 15—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2026";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2026"	£1,175"
---	---------

Diwygio Atodlen 4

46. Yn Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl), ym mharagraff 20 (swm grant myfyriwr ôl-raddedig anabl), yn is-baragraff (2), yn Achos 1, yn lle "£34,000" rhodder "£34,671".

RHAN 5

Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Cyflwyniad

47. Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(7) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Diwygio rheoliad 13

48. Yn rheoliad 13 (swm benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig), ym mharagraff (1), yn Nhabl 2—

(7) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/193 (Cy. 42); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Awst 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£29,705”
--	----------

RHAN 6

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

Cyflwyniad

49. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019⁽⁸⁾ wedi eu diwygio yn unol â’r Rhan hon.

Diwygio rheoliad 31ZA

50. Yn rheoliad 31ZA (swm y benthyciad cyfrannu at gostau — cyrsiau sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024), ym mharagraff (2), yn Nhabl A1—

- (a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025” mewnosoder “ond cyn 1 Awst 2026”;
- (b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

“Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026	£19,635”
--	----------

Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
20 Ionawr 2026

⁽⁸⁾ O.S. 2019/895 (Cy. 161), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/501 (Cy. 79) ac O.S. 2025/193 (Cy. 42); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.



W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 11

EDUCATION, WALES

The Education (Student Finance) (Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend—

- (a) the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 (“the 2015 Regulations”),
- (b) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017 (“the 2017 Regulations”),
- (c) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 (“the 2018 Regulations”),
- (d) the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018 (“the Doctoral Degree Loan Regulations”), and
- (e) the Education (Student Support) (Postgraduate Master’s Degrees) (Wales) Regulations 2019 (“the 2019 Regulations”).

Part 1 of these Regulations provides for the coming into force and application of these Regulations.

The 2015 Regulations prescribe the maximum amount that higher education institutions in Wales with an approved fee and access plan in force (“regulated institutions”) can charge by way of tuition fees for full-time undergraduate courses. The 2015 Regulations also prescribe lower maximum amounts in respect of certain courses.

Part 2 of these Regulations amends the 2015 Regulations to increase each prescribed maximum amount from the 2026/27 academic year.

The 2017 Regulations and the 2018 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated undergraduate courses which begin before 1 August 2018, and on or after 1 August 2018, respectively.

The Doctoral Degree Loan Regulations provide for financial support for eligible students taking designated postgraduate doctoral degree courses which begin on or after 1 August

2018. The 2019 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated postgraduate master's degree courses which begin on or after 1 August 2019.

Parts 3, 4, 5 and 6 of these Regulations amend the 2017 Regulations, the 2018 Regulations, the Doctoral Degree Loan Regulations and the 2019 Regulations, respectively, to update various amounts specified in each of those Regulations.

